Joint Council for Qualifications

# Trosolwg o'r broses trefniadau mynediad ar gyfer canolfannau sy'n derbyn ymgeiswyr preifat

At sylw Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig, aseswyr ac uwch arweinwyr mewn ysgolion a cholegau.

**Cynhyrchwyd ar ran:**

©JCQ^CIC 2022

**Cynnwys** **Tudalen**


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Rhagarweiniad | **1** |
| 2. | Beth yw trefniadau mynediad? | **1** |
| 3. | Beth yw addasiadau rhesymol? | **1** |
| 4. | Mathau o drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol | **3** |
| 5. | Gwneud cais am drefniadau mynediad | **4** |
| 6. | Trosolwg o ofynion tystiolaeth | **5** |
| 7. | Sut mae Cydlynwyr AAA yn sefydlu ffordd normal o weithio | **7** |
| 8. | Gwybodaeth gysylltu | **7** |

## 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon wedi'i hysgrifennu'n benodol ar gyfer ymgeiswyr preifat, rhieni/gofalwyr ymgeiswyr preifat, y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu neu addysgol eraill ar gyfer ymgeiswyr preifat, a Chydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig o fewn canolfannau sy'n darparu ar gyfer ymgeiswyr preifat. Y nod yw rhoi dealltwriaeth o'r broses ar gyfer trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol o safbwynt ymgeisydd preifat.

Bwriad y ddogfen yw cefnogi, ond **nid** disodli, cyhoeddiad y CGC Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol y mae'n rhaid i CAAA, aelodau cyfatebol o staff mewn colegau AB ac aseswyr, barhau i gyfeirio atynt.

## 2. Beth yw trefniadau mynediad?

Cytunir ar drefniadau mynediad **cyn** asesiad. Maent yn galluogi ymgeiswyr sydd ag **anghenion penodol**, megis anghenion addysgol arbennig, anableddau neu anafiadau dros dro i gael mynediad at yr asesiad ac i ddangos eu gwybodaeth a beth maent yn gallu ei wneud heb newid gofynion yr asesiad. Y bwriad y tu ôl i drefniant mynediad yw bodloni anghenion ymgeiswyr unigol heb effeithio ar uniondeb yr asesiad. Trefniadau mynediad yw'r brif ffordd i gyrff dyfarnu gydymffurfio â'r ddyletswydd yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 i wneud 'addasiadau rhesymol'.

## 3. Beth yw addasiadau rhesymol?

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn mynnu bod corff dyfarnu yn gwneud addasiadau rhesymol lle byddai ymgeisydd, sydd ag anabledd o fewn yr ystyr a geir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, **o dan anfantais sylweddol** o'i gymharu â rhywun nad oes ganddo anabledd.

Mae'n ofynnol i'r corff dyfarnu gymryd camau rhesymol i oresgyn yr anfantais honno. Enghraifft fyddai darllenydd cyfrifiadurol, 50% o amser ychwanegol a phrosesydd geiriau a fyddai'n addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeisydd â nam ar ei olwg. Gall addasiad rhesymol fod yn unigryw i'r unigolyn hwnnw.

Bydd p'un ai a ystyrir addasiad yn rhesymol yn dibynnu ar sawl ffactor a fydd yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- anghenion yr ymgeisydd anabl;
- effeithiolrwydd yr addasiad;
- cost yr addasiad; **ac**
- effaith debygol yr addasiad ar yr ymgeisydd ac ymgeiswyr eraill.

Ni chaiff addasiad ei gymeradwyo os yw'n golygu bod:

- costau afresymol i'r corff dyfarnu;
- cyfnodau amser afresymol; **neu**
- ei fod yn effeithio ar ddiogelwch a manwl gywirdeb yr asesu.

Mae hyn oherwydd nad yw'r addasiad yn un 'rhesymol'.

Yn y rhan fwyaf o achosion ni fydd yn rhesymol gwneud addasiadau i amcanion asesu o fewn cymhwyster. Byddai gwneud hyn yn tanseilio effeithiolrwydd y cymhwyster wrth ddarparu syniad o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yr ymgeisydd. Nid oes unrhyw ddyletswydd ar y cyrff dyfarnu i wneud addasiadau na ddylid eu gwneud yn ôl y rheoleiddwyr cymwysterau.

## 4. Mathau o drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol

Mae pedwar ar bymtheg o drefniadau mynediad/addasiadau rhesymol yn cael eu dirprwyo i ganolfannau. Nid yw'r trefniadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ganolfan arholi brosesu cais ar-lein nac, yn y rhan fwyaf o achosion, unrhyw dystiolaeth o angen. Mae'r Cydlynydd AAA, neu aelod cyfatebol o staff, wedi'i rymuso ar lefel leol i benderfynu pa mor briodol a rhesymol yw'r trefniant.

**Mae'r trefniadau canlynol yn cael eu dirprwyo i ganolfannau:**

- Offer mwyhau
- Geiriadur dwyieithog
- Trawsgrifiad Braille
- Peiriannau Braille
- Teledu Cylch Cyfyng (CCTV)
- Enwi lliwiau gan y goruchwyliwr ar gyfer ymgeiswyr sy'n lliwddall
- Troshaenau lliw
- Cyfathrebydd Proffesiynol (ar gyfer ymgeiswyr sy'n defnyddio Iaith Arwyddion)
- Arholiad ar bapur lliw / wedi'i fwyhau
- Teganau ffidlan a pheli straen
- Siaradwr byw ar gyfer cydrannau arholiad wedi'u recordio ymlaen llaw
- Cymorth golwg isel / chwyddhadur
- Amddiffynwyr clustiau plygiau clust nad ydynt yn rhai electronig
- Sganwyr Darllen Nodau Optegol (OCR)
- Anogwr
- Darllen yn uchel (sy'n gallu cynnwys ysgrifbin darllen mewn arholiad)
- Goruchwyliaeth ar wahân o fewn y ganolfan (sefyll yr arholiad y tu allan i'r brif ystafell/neuadd arholiadau e.e. ystafell ar gyfer grŵp llai o ymgeiswyr)
- Papur wedi'i sgwario ar gyfer anawsterau gofodol gweledol
- Egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth
- Prosesydd Geiriau

**Yn ôl y  trefniadau canlynol mae gofyn i'r ganolfan gyflwyno cais ar-lein, gyda chefnogaeth tystiolaeth o angen:**

- Geiriadur dwyieithog gydag amser ychwanegol o 10% (ar gyfer cymwysterau TGAU yn unig)
- Darllenydd cyfrifiadur/darllenydd
- 25% o amser ychwanegol
- Amser ychwanegol dros 25%†
- Cynorthwyydd Ymarferol†
- Ysgrifennydd/technoleg adnabod llais

†Bydd y trefniant yn cael ei wrthod yn awtomatig. Yna bydd ceisiadau yn cael eu cyfeirio ar-lein gan y ganolfan i'r corff dyfarnu perthnasol.

## 5. gwneud cais am drefniadau mynediad

**Rhaid** i drefniadau gael eu prosesu a'u cymeradwyo **cyn** arholiad neu asesiad, heb fod yn hwyrach na'r terfyn amser a gyhoeddwyd isod.

| **Cyfres arholiadau** | **Trefniant mynediad** | **Terfyn amser terfynol** |
|---|---|---|
| **Mehefin 2023** | Papurau wedi'u haddasu | 31 Ionawr 2023 |
| **Mehefin 2023** | Pob trefniant mynediad arall | 21 Mawrth 2023 |

**Dylai ymgeiswyr preifat fod yn ymwybodol y bydd canolfan arholi yn gosod dyddiad cau mewnol cynharach i'w galluogi i gasglu, coladu a chynhyrchu'r dystiolaeth ofynnol i gefnogi cais ar-lein.**

Wrth wneud cais i ganolfan a llenwi ffurflen gais, **rhaid** i ymgeisydd preifat nodi ei anghenion ac unrhyw drefniadau/addasiadau mynediad posibl. Yna, dylai'r ymgeisydd preifat gysylltu â'r ganolfan cyn gynted â phosibl wedi hynny i drafod ei anghenion. Bydd hyn yn galluogi'r ganolfan i gwrdd â'i dyddiad cau mewnol a thrafod gyda'r ymgeisydd preifat a yw'r dewis o gymhwyster(au) yn briodol yn ogystal ag archwilio trefniadau mynediad posibl/addasiadau rhesymol.

Ni ddylai ymgeiswyr preifat godi'r angen am drefniadau/addasiadau mynediad ar ôl dyddiad cau'r cyrff dyfarnu ar gyfer y gyfres berthnasol.

## 6. Trosolwg o ofynion tystiolaeth

| **Trefniadau Mynediad** | **Gofynion tystiolaeth (ym mhob achos ffordd normal o weithio o fewn y ganolfan oni bai bod salwch/anaf dros dro)** |
|---|---|
| **Anabledd corfforol, nam ar y synhwyrau** | |
| 25% o amser ychwanegol, amser ychwanegol o fwy na 25%, ysgrifennydd | *Tystiolaeth yn seiliedig ar y ganolfan gan y CAAA ar bapur pennawd/templed y ganolfan, wedi'i lofnodi a'i ddyddio, yn cadarnhau ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio a bod gan yr ymgeisydd anawsterau parhaus ac arwyddocaol sy'n effeithio'n sylweddol ar addysgu a dysgu, wedi'i gadarnhau gan ddiagnosis ffurfiol gan arbenigwr megis pediatrydd clinigol neu ymgynghorydd ysbyty (nid meddyg teulu). |
| **Cyflwr meddygol (e.e. ADHD, ASD, cyflyrau iechyd meddwl)** | |
| 25% o amser ychwanegol, amser ychwanegol o fwy na 25%, ysgrifennydd | *Tystiolaeth yn seiliedig ar y ganolfan gan y CAAA ar bapur pennawd/templed y ganolfan, wedi'i lofnodi a'i ddyddio, yn cadarnhau ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio a bod gan yr ymgeisydd anawsterau parhaus ac arwyddocaol sy'n effeithio'n sylweddol ar addysgu a dysgu, wedi'i gadarnhau gan ddiagnosis ffurfiol gan arbenigwr megis pediatrydd clinigol neu ymgynghorydd ysbyty (nid meddyg teulu). |
| **Anawsterau Dysgu (Dyscalcwlia, Dyslecsia)** | |
| 25% o amser ychwanegol | Ffurflen 8‡ - **asesiad gan aseswr penodedig y ganolfan o Flwyddyn 9 ymlaen** gan ddefnyddio rhifynnau diweddar o brofion wedi'u safoni'n genedlaethol (yr aseswr yn dethol y profion).<br><br>**O leiaf dwy sgôr safonedig o 84 neu is, neu un sgôr safonedig islaw'r cyfartaledd (84 neu is) AC un sgôr safonedig cyfartaledd isel (85 i 89) yn ymwneud â dau faes gwahanol o gyflymder gweithio (prosesu gwybyddol / darllen / ysgrifennu).**<br><br>**Dim ond Ffurflen 8 sy'n dderbyniol. Nid** yw taenlenni, negeseuon e-bost, ffurflenni tebyg i Ffurflen 8 sydd wedi'u creu gan y ganolfan, adroddiadau seicolegwyr addysgol nac adroddiadau eraill yn dderbyniol at ddibenion prosesu ac arolygu. |
| Ysgrifennydd /technoleg adnabod lleferydd (gan gynnwys defnyddio prosesydd geiriau gyda'r gwiriad sillafu a/neu ramadeg wedi'i alluogi) | Ffurflen 8‡ - **asesiad gan aseswr penodedig y ganolfan o Flwyddyn 9 ymlaen** gan ddefnyddio rhifynnau diweddar o brofion wedi'u safoni'n genedlaethol (yr aseswr yn dethol y profion).<br><br>Ni all yr ymgeisydd gynhyrchu gwaith ysgrifenedig drwy unrhyw fodd arall oherwydd y canlynol:<br><br>• sillafu yn yr **amrediad is na'r cyfartalog** (**sgôr cywirdeb sillafu wedi'i safoni o 84 neu lai**) gyda sillafiadau anadnabyddus; Neu<br>• cyflymder ysgrifennu is na'r cyfartaledd (**sgôr wedi'i safoni o 84 neu lai**).<br><br>**Dim ond Ffurflen 8 sy'n dderbyniol. Nid** yw taenlenni, negeseuon e-bost, ffurflenni tebyg i Ffurflen 8 sydd wedi'u creu gan y ganolfan, adroddiadau seicolegwyr addysgol nac adroddiadau eraill yn dderbyniol at ddibenion prosesu ac arolygu. |
| Addasydd Iaith<br><br>(**Mae'r dystiolaeth sydd ei hangen yn berthnasol i bob ymgeisydd waeth beth yw eu nam**) | Ffurflen 8‡ – **rhaid bod asesiad wedi'i wneud gan aseswr penodedig y ganolfan o fewn 26 mis i'rarholiad(au)** gan ddefnyddio rhifynnau diweddar o brofion wedi'u safoni'n genedlaethol (yr aseswr yn dethol y profion).<br><br>• **Rhaid** rhoi'r canlyniadau fel sgorau wedi'u safoni.<br>• **Rhaid** i sgôr wedi'i safoni ymgeisydd fod yn **sylweddol is na'r cyfartaledd** (**sgôr wedi'i safoni o 69 neu lai**) ar gyfer darllen a deall a/neu eirfa. **Trefniant prin ac eithriadol yw hwn**.<br><br>**Dim ond Ffurflen 8 sy'n dderbyniol. Nid** yw taenlenni, negeseuon e-bost, ffurflenni tebyg i Ffurflen 8 sydd wedi'u creu gan y ganolfan, adroddiadau seicolegwyr addysgol nac adroddiadau eraill yn dderbyniol at ddibenion prosesu ac arolygu. |

| | |
|---|---|
| Amser ychwanegol rhwng 26% a 50% | Ffurflen 8‡ – rhaid bod asesiad wedi'i wneud gan aseswr penodedig y ganolfan o fewn 26 mis i'r arholiad(au) gan ddefnyddio rhifynnau diweddar o brofion wedi'u safoni'n genedlaethol (yr aseswr yn dethol y profion).<br><br>• Rhaid rhoi'r canlyniadau fel sgorau wedi'u safoni.<br>• Rhaid i gyflymder prosesu gwybyddol/darllen/ysgrifennu **fod yn sylweddol is na'r cyfartaledd (dwy sgôr wedi'i safoni g o 69 neu lai sy'n ymwneud â dau faes gwahanol o gyflymder gweithio)**. **Trefniant prin ac eithriadol yw hwn.**<br><br>**Dim ond Ffurflen 8 sy'n dderbyniol.** **Nid** yw taenlenni, negeseuon e-bost, ffurflenni tebyg i Ffurflen 8 sydd wedi'u creu gan y ganolfan, adroddiadau seicolegwyr addysgol nac adroddiadau eraill yn dderbyniol at ddibenion prosesu ac arolygu. |
| ‡ **Rhaid cwblhau Ffurflen CGC 8 (Rhannau 1, 2 a 3).**<br><br>**Rhaid** i'r Cydlynwyr AAA gwblhau Rhan 1 o Ffurflen 8 **cyn i'r** ymgeisydd gael ei asesu.<br><br>**Rhaid** i'r aseswr gofnodi canlyniadau ei asesiadau yn Rhan 2 o Ffurflen 8, ac arwyddo a dyddio'r adran hon o Ffurflen 8.<br><br>**Rhaid** i'r Cydlynwyr AAA gwblhau Rhan 3 o Ffurflen 8, ac arwyddo a dyddio'r adran hon o Ffurflen 8. | †Mewn amgylchiadau eithriadol gellir derbyn dwy sgôr wedi'u safoni â chyfartaledd isel (85-89) sy'n ymwneud â dau faes gwahanol o gyflymder gweithio. |
| Darllenydd cyfrifiadur/darllenydd | Rhaid i'r CAAA gadarnhau natur nam yr ymgeisydd a bod y defnydd o ddarllenydd cyfrifiadur a/neu ddarllenydd yn adlewyrchu ei ffordd arferol a phresennol o weithio yn y Ganolfan. |
| Trefniadau mynediad eraill<br><br>(Trefniadau mynediad wedi'u dirprwyo i ganolfannau) | **Nid oes angen gwneud cais trwy AA0 ar gyfer**: offer mwyhau, geiriadur dwyieithog (heb 10% o amser ychwanegol), trawsgrifiad Braille, teipiaduron Braille, Teledu Cylch Cyfyng (CCTV), enwi lliw ar gyfer ymgeiswyr lliwddall, troshaenau lliw, Cyfathrebu Proffesiynol, arholiad ar bapur lliw/wedi'i fwyhau, ysgrifbin darllen arholiadau, teganau ffidlan a pheli straen, Siaradwr Byw ar gyfer arholiadau wedi'u recordio ymlaen llaw, cymorth golwg gwan/chwyddhadur, amddiffynwyr clust /plygiau clust heb fod yn electronig, sganiwr OCR, anogwr, darllen yn uchel, goruchwyliaeth ar wahân, papur sgwâr ar gyfer anawsterau gofodol gweledol, seibiannau gorffwys wedi'u goruchwylio a phrosesydd geiriau. |
| **EAL** | |
| Geiriadur dwyieithog | Gallai ymgeisydd gydag EAL fod yn gymwys i gael geiriadur dwyieithog. **Rhaid** storio'r geiriadur **dwyieithog yn y ganolfan.** |
| Geiriadur dwyieithog a 10% o amser ychwanegol | *Rhaid i'r ymgeisydd fodloni'r meini prawf cyhoeddedig. **Trefniant prin ac eithriadol yw hwn**.<br>**Nid yw'r trefniant hwn ar gael i ymgeiswyr a gofrestrwyd ar gyfer cymwysterau TAG UG a Safon Uwch a chymwysterau CBAC Lefel 3 Cymhwysol.** |

* **Rhaid** i CAAA gyfeirio at gyhoeddiad y CGC Trefniadau Mynediad *ac Addasiadau Rhesymol*: - http://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration

## 7. Sut mae Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig yn sefydlu ffordd normal o weithio?

Mae amrywiaeth o ffynonellau y gallai CAAA eu defnyddio i lunio darlun o angen a sefydlu'r ffordd arferol o weithio -

- cael sgwrs fanwl gyda'r ymgeisydd preifat, a lle bo hynny'n berthnasol i'w rhiant(rhieni)/gofalwr(wyr), neu'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu neu addysgol eraill, gan nodi eu hanawsterau hunan-gofnodedig wrth weithio o dan amodau wedi'u hamseru;

- lle bo'n berthnasol, gwybodaeth sy'n cael ei throsglwyddo dros y ffôn neu drwy e-bost gan diwtor preifat yr ymgeisydd;

- os ydynt yn hysbys, trefniadau a wnaed ar gyfer profion Cyfnod Allweddol 2 a/neu unrhyw arholiadau allanol blaenorol;

- Cynllun Addysg Unigol (IEP) neu Gynllun Dysgu Unigol (ILP), neu gyfwerth, o ysgol flaenorol;

- cynnal profion sgrinio;

- gosod asesiadau wedi'u hamseru ar gyfer ymgeiswyr preifat i asesu'r angen am 25% o amser ychwanegol, ysgrifennydd neu brosesydd geiriau. Er enghraifft, mae rhai asesiadau gyda 25% o amser ychwanegol ac eraill heb 25% o amser ychwanegol. Pan nad yw ymgeisydd preifat yn gallu sefyll asesiadau yn y ganolfan, gellir defnyddio goruchwyliaeth o bell. Nid oes angen i ganolfannau gael meddalwedd goruchwylio o bell arbenigol. Gellid arsylwi'r ymgeisydd preifat o bell gan ddefnyddio meddalwedd fideo-gynadledda safonol fel Microsoft Teams neu Zoom.

## 8. Gwybodaeth gysylltu

Dylai ymgeiswyr preifat gysylltu â'r CAAA yn y ganolfan sydd wedi'u cofrestru ar gyfer arholiadau i drafod trefniadau mynediad posibl/addasiadau rhesymol.

Nid yw'r CGC na'r cyrff dyfarnu yn gallu ateb ymholiadau unigol gan ymgeiswyr preifat.